**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Llyr Gruffydd, Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Paul Davies, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
John Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

23 Gorffennaf 2024

**Cylchoedd gwaith y Pwyllgorau**

Annwyl Llyr, Paul a John,

Ar 9 Gorffennaf, adolygodd y Pwyllgor Busnes ymatebion y pwyllgorau i'w wahoddiad am sylwadau ar y cylchoedd gorchwyl presennol yn sgil newidiadau i bortffolios gweinidogion. Gwnaed hyn ar ôl i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ofyn am i ystyriaeth gael ei rhoi i ad-drefnu cylchoedd gorchwyl Pwyllgorau, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros sawl maes polisi i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn unol â'r cysylltiadau presennol ag Ysgrifenyddion y Cabinet.

I sicrhau ei fod yn gallu ystyried ystod lawnach o opsiynau a safbwyntiau, ysgrifennodd y Pwyllgor Busnes at yr holl Bwyllgorau polisi, yn ogystal â'r Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Mae'r ymatebion a ddaeth i law yn dangos nad oes fawr o awydd i newid cylchoedd gorchwyl presennol y pwyllgor, gan gynnwys o du Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Fodd bynnag, mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wedi mynegi ei barodrwydd i ysgwyddo cyfrifoldeb am graffu ar borthladdoedd rhydd a'r economi gylchol. Yn ogystal, cynigiodd y Pwyllgor hwnnw y byddai'n fodlon gwneud trefniadau i ofyn cwestiynau ynghylch ynni, cysylltedd digidol, y maes awyr a phorthladdoedd ar ran Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn ystod sesiynau craffu ar y


gyllideb a sesiynau cyffredinol i graffu ar waith Gweinidogion gyda'r Ysgrifennydd Cabinet perthnasol.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaeth i law, cytunodd y Pwyllgor Busnes â'r cynnig i waith craffu ar borthladdoedd rhydd a'r economi gylchol gael ei drosglwyddo o Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Gan fod y meysydd pwnc hyn yn dod o dan y meysydd polisi ehangach sydd yn y cylchoedd gorchwyl y cytunodd y Senedd arnynt pan sefydlwyd y ddau bwyllgor hynny ym mis Mehefin 2021, nid yw'r Pwyllgor Busnes o'r farn bod angen cynnig yn y Cyfarfod Llawn i roi effaith i'r newid ymarfer hwn.

Hefyd, yn sgil yr awgrym ychwanegol gan Bwyllgor yr Economi, ac yn effro i'r ffaith nad oedd pwyllgorau wedi cael cyfle i drafod y materion hyn â'i gilydd, cynigiodd y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod y byddwch chi efallai am gwrdd, fel Cadeiryddion y Pwyllgorau dan sylw, i drafod ffyrdd o wella cydgysylltu wrth graffu ar waith Gweinidogion ar draws Pwyllgorau, yn enwedig wrth graffu ar y gyllideb. Os yw'r trafodaethau hyn yn arwain at gais am newidiadau ffurfiol pellach i gylchoedd gorchwyl eich pwyllgorau chi, bydd y Pwyllgor Busnes yn awyddus i ystyried eich cynigion.

Diolch am eich ystyriaeth wrth fynd i'r afael â'r materion pwysig hyn.

Cofion gorau



**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.